**Ysgol Treganna 25-26**
**Cynllun Datblygu Ysgol i rieni**
**Sut allwch gynorthwyo eich plentyn?**

| Blaenoriaeth | Sut allwch gefnogi eich plentyn? |
|---|---|
| Ydyn ni'n achub ar gyfleoedd i'n dysgwyr gymhwyso a datblygu eu sgiliau rhifedd yn gynyddol ar draws y cwricwlwm? | **1. Cefnogi resymu a datrys problemau gartref**<br>Anogwch eich plentyn i esbonio pam maen nhw'n dewis ateb neu strategaeth mewn tasgau rhifedd gartref — er enghraifft wrth gyfrifo cost siopa neu gyfrifo amser teithio.<br>**https://hwb.gov.wales/repository/resource/574488cd-2a17-4eac-a6ce-434280bbb51d/overview**<br><br>**2. Cryfhau'r gweithrediadau sylfaenol**<br>Ymarferwch adio, tynnu, lluosi a rhannu mewn ffyrdd hwyliog fel gemau bwrdd, cardiau fflach neu apiau addysgol.<br>**https://www.bbc.co.uk/teach/topics/cv2z0jvpegzt** |

| | |
|---|---|
| | **3. Defnyddio rhifedd mewn bywyd go iawn**<br>Cynnwys rhifedd wrth goginio, mesur, cynllunio taith neu gyfrifo canrannau mewn bargeinion siopa, fel bod y plentyn yn gweld perthnasedd y sgiliau.<br>**https://www.gwasanaethdysgudigidol.cymru/gweithgareddauRhesymu/**<br><br>**4. Dysgu awyr agored gyda rhifedd**<br>Defnyddiwch amser awyr agored i fesur pellteroedd, cyfrif camau, neu gyfrifo cyflymder wrth feicio neu redeg.<br>**https://mrsrobertscymru.wordpress.com/wp-content/uploads/2020/06/adnoddau-mathemateg-ar-gyfer-rhieni-7-11.pdf**<br><br>**5. Myfyrio ar gynnydd**<br>Eisteddwch gyda'ch plentyn i adolygu gwaith mathemateg, trafod beth aeth yn dda, trafod y cam nesaf.<br><br>**6. Deall y Pum Hyfedredd Mathemategol**<br>Mynychwch sesiynau gwybodaeth i rieni (pan gânt eu cynnig) er mwyn gwybod sut i gefnogi pob hyfedredd gartref.<br>**https://www.mathemateg.com/mod/page/view.php?id=4109**<br><br>**7. Cydweithio â'r ysgol**<br>Cymryd rhan mewn gweithdai neu ddiwrnodau agored i weld dulliau addysgu rhifedd a chael syniadau i'w defnyddio gartref.<br><br>**8. Cefnogi adalw gweithredol**<br>Adolygu dysgu blaenorol gyda'ch plentyn yn achlysurol trwy holi cwestiynau byrion neu heriau cyflym.<br>**9. Rhannu adnoddau a syniadau**<br>Defnyddio syniadau, gemau, llyfrau neu wefannau o'r banc adnoddau digidol a grëir gan yr ysgol.<br>**https://hwb.gov.wales/** |

| | |
|---|---|
| | **10. Cymryd rhan mewn adborth**<br>Ateb holiaduron neu gymryd rhan mewn trafodaethau byr gyda'r ysgol i rannu profiadau am sut mae'r plentyn yn defnyddio rhifedd y tu allan i'r dosbarth. |
| I ba raddau ydyn ni'n yn darparu cyfleoedd pwrpasol ynghyd â gosod disgwyliadau uchel, i alluogi disgyblion i uwch lefelu eu sgiliau ysgrifennu estynedig ac i saernio eu gwaith yn effeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd a dibenion dilys? | **1. Annog defnydd o iaith gyfoethog gartref**<br>Siaradwch â'ch plentyn am ystod eang o bynciau, gan ddefnyddio geirfa amrywiol a chywir. Mae trafodaethau dyddiol yn cryfhau'r iaith sy'n cael ei defnyddio mewn ysgrifennu estynedig.<br>**https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/adnoddau-digidol/mynediad/**<br><br>**2. Darllen ac arsylwi ar fodelau da**<br>Darllenwch gyda'ch plentyn amrywiaeth o destunau o safon uchel (llyfrau, erthyglau, straeon, adroddiadau). Trafodwch beth sy'n gwneud y testunau hyn yn effeithiol, gan dynnu sylw at strwythur, cywair a dewis geiriau.<br>**https://www.bbc.co.uk/cymru/dysgu/cynradd/**<br>**https://www.s4c.co.uk/darllendafi**<br><br>3. **Cynnal sgyrsiau cyn ysgrifennu/ Trafod beth yw ffurf ysgrifennu'r bythefnos.**<br>Cyn tasgau ysgrifennu, trafodwch syniadau gyda'ch plentyn. Gallwch helpu i feddwl am batrymau iaith, trefn y syniadau a'r math o gynulleidfa fydd yn darllen y gwaith.<br>**https://hwb.gov.wales/repository/resource/1ec9c787-e0ca-47b3-9dec-2224ed2bdd8f/cy?sort=recent&strict=1**<br><br>**4. Cefnogi cynllunio cam-wrth-gam**<br>Anogwch eich plentyn i gynllunio cyn ysgrifennu, creu drafft, a diwygio'n fwriadol. Ewch ati i greu mapiau meddwl gyda'ch plentyn yn cynnwys geirfa, agoriadau ayb<br>**https://adnoddau.canolfanpeniarth.org/matiau_gramadeg/** |

| | |
|---|---|
| | **5. Atgyfnerthu sgiliau llafar a gramadeg**<br>Chwarae gemau iaith gartref sy'n cynnwys sillafu, treigladau, patrwm brawddegau a defnyddio geirfa newydd.<br>**https://adnoddau.canolfanpeniarth.org/cywirdeb-iaith/**<br><br>**6. Cysylltu profiadau â'r ysgrifennu**<br>Ar ôl ymweliadau addysgol neu brofiadau bywyd go iawn, trafodwch y digwyddiad gyda'ch plentyn.<br><br>**7. Cefnogi ysgrifennu creadigol**<br>Darparu cyfleoedd i'ch plentyn ysgrifennu ar gyfer pleser – fel dyddiadur, stori ddychmygol neu lythyr – gan annog dychymyg a chreadigrwydd.<br>**https://hwb.gov.wales/**<br><br>**8. Cymryd rhan yn y broses adolygu**<br>Darllenwch ddrafft gwaith gyda'ch plentyn, trafodwch yr hyn sy'n gweithio'n dda, a chynnig awgrymiadau i wella cywair, arddull a chywirdeb.<br><br>**9. Rhannu a dathlu gwaith ysgrifennu**<br>Anogwch eich plentyn i rannu eu gwaith â chynulleidfaoedd go iawn, teulu, ffrindiau, neu gyfryngau digidol,fel bod gan yr ysgrifennu bwrpas a gwerth ymarferol. |
| Ydyn ni'n cyfoethogi a gwella Cymreictod yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn a chodi cyrhaeddiad disgyblion? | **1. Defnyddio "Cymraeg yn 1af" gartref**<br>Anogwch ddefnyddio Cymraeg fel y dewis cyntaf wrth gyfarch, gofyn cwestiynau syml neu roi cyfarwyddiadau bob dydd.<br>**https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-yn-y-cartref/cymraeg-yn-y-cartref-cyflwyniad/cymraeg-yn-y-cartref/** |

| | |
|---|---|
| | **2. Atgyfnerthu negeseuon cyson**<br>Adleisio’r un negeseuon â’r ysgol, e.e. “Cymraeg bob amser yn gyntaf”, ar lafar.<br><br>**3. Canmol defnydd naturiol o’r Gymraeg**<br>Rhoi clod pan fydd eich plentyn yn defnyddio’r Gymraeg heb ei orfodi, yn enwedig mewn sefyllfaoedd bob dydd.<br><br>**4. Cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg**<br>Mynd gyda’ch plentyn i ddigwyddiadau lleol Cymraeg, e.e. eisteddfod, noson lawen, neu lyfrgell, i wneud y defnydd o’r iaith yn berthnasol a byw.<br>**https://llyw.cymru/dydd-miwsig-cymru**<br><br>**5. Creu amgylchedd cartref sy’n hyrwyddo’r Gymraeg**<br>Arddangos geiriau neu ymadroddion Cymraeg ar oergell, drysau neu ffenestri, a chadw llyfrau, cylchgronau a gemau Cymraeg wrth law.<br>https://cymraegibawb.cymru/en/welsh-education/home-and-nursery<br><br>**6. Ymarfer cytundeb iaith y dosbarth**<br>Trafodwch gyda’ch plentyn beth mae’r cytundeb iaith yn ei olygu a sut i’w gadw.<br><br>**7. Defnyddio’r Gymraeg mewn gweithgareddau teuluol**<br>Canu caneuon Cymraeg, gwylio rhaglenni teledu neu ffilmiau Cymraeg, a chwarae gemau sy’n cynnwys geiriau a brawddegau Cymraeg.<br>**https://www.youtube.com/@CywS4C**<br><br>**8. Modelu dysgu’r Gymraeg fel rhiant**<br>Os nad ydych yn siaradwyr rhugl, dangoswch eich bod yn dysgu geiriau newydd gyda’ch plentyn, gan greu diwylliant cadarnhaol o ddysgu gyda’ch gilydd.<br>**https://www.duolingo.com/course/cy/en/Learn-Welsh** |

| | |
|---|---|
| | **9. Cefnogi gwaith cartref Cymraeg**<br>Darparu lle tawel a dangos diddordeb yn y tasgau Cymraeg, gan annog eglurhad a thrafodaeth yn yr iaith.<br><br>**10. Rhannu llwyddiannau gyda'r ysgol**<br>Anfon neges neu lun i'r ysgol pan fydd eich plentyn yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol y tu allan i'r dosbarth, er mwyn ei gydnabod a'i ddathlu.<br><br>**11. Ffarwelio gyda'ch plentyn yn y Gymraeg.**<br>Cofiwch atgoffa'r plant wrth ffarwelio yn y Gymraeg ein bod yn siarad Cymraeg yn yr ysgol. |
| Ydyn ni'n sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn diwallu anghenion pob disgybl ac yn cefnogi addysg gynhwysol? | **1.Cymryd rhan mewn gweithdai rhieni**<br>Mynychwch sesiynau yn "Y Nyth" neu weithdai eraill i ddysgu strategaethau cefnogol ar gyfer disgyblion ag ASD neu anghenion dysgu amrywiol.<br>**Gwasanaethau, Cymorth ac Adnoddau Cynhwysol**<br>**Inclusive Services, Support & Resources**<br><br>**2. Rhannu gwybodaeth am anghenion eich plentyn**<br>Darparwch wybodaeth fanwl i'r ysgol am gryfderau, heriau a hoffterau eich plentyn, fel bod athrawon yn gallu addasu'r dysgu yn briodol.<br><br>**3. Creu amgylchedd cefnogol gartref**<br>Trefnwch lle tawel, adnoddau hygyrch, a threfn glir i wneud gwaith cartref, gan adlewyrchu egwyddorion cynhwysol yr ysgol.<br>**Cyfathrebu – Communication**<br>**Chwarae – Play**<br>**Strwythur – Routine**<br>**Rhwystredigaeth - Frustration** |

| | |
|---|---|
| | **4. Atgyfnerthu sgiliau annibyniaeth**<br>Anogwch eich plentyn i ddefnyddio strategaethau dysgu medrus, fel cynllunio tasgau, defnyddio amseryddion, a chadw rhestrau, i gefnogi dysgu annibynnol.<br><br>**5. Cefnogi mynediad at weithgareddau**<br>Sicrhewch fod eich plentyn yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol, gan fynd i'r afael â rhwystrau posibl megis cost, cludiant neu offer.<br>**<u>Gweithgareddau Cynhwysol</u>**<br>**<u>Inclusive Activities</u>**<br><br>**6. Cydweithio ar awdit cynhwysiant**<br>Cyfrannwch at arolygon neu drafodaethau gyda'r ysgol am ba mor gynhwysol yw'r amgylchedd dysgu a beth ellir ei wella.<br><br>**7. Modelu agwedd gadarnhaol tuag at amrywiaeth**<br>Siaradwch yn gadarnhaol am amrywiaeth gallu, diwylliant a chefndir, gan atgyfnerthu'r neges bod pawb yn perthyn ac yn gallu llwyddo.<br><br>**8. Defnyddio adnoddau'r ysgol**<br>Manteisiwch ar y Google Site neu becynnau gwybodaeth a ddarperir gan yr ysgol i ddysgu dulliau cefnogi dysgu eich plentyn gartref.<br><br>**9. Rhannu llwyddiannau a datblygiadau**<br>Rhowch wybod i'r ysgol am gynnydd neu lwyddiannau eich plentyn gartref neu mewn clwb/allgyrsiol, fel bod y darlun cynhwysol yn gliriach.<br><br>**10. Cefnogi newid parhaus**<br>Derbyn ac ymateb i adborth gan yr ysgol, gan gydweithio i roi strategaethau newydd ar waith a chadw golwg ar eu heffaith dros amser. |

| | |
|---|---|
| I ba raddau rydym yn cefnogi staff i ddatblygu dealltwriaeth glir o gynnydd ym mhob agwedd ar ddysgu disgyblion? | **1.Rhannu gwybodaeth am gynnydd gartref**<br>Rhowch wybod i'r ysgol am newidiadau rydych wedi'u sylwi arnynt yn sgiliau, hyder neu ymddygiad eich plentyn, fel bod y darlun cynnydd yn gyflawn.<br><br>**2. Cefnogi gwaith cartref yn gyson**<br>Creu trefn a lleoliad addas ar gyfer cwblhau gwaith cartref, gan annog safon uchel a myfyrio ar sut gall y plentyn wella.<br>**https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1232423/gwaith-cartref-dim-problem-welsh-homework-no-problem.pdf**<br><br>**3.Adolygu targedau gyda'ch plentyn**<br>Defnyddiwch y targedau a osodir gan yr ysgol (e.e. ar y Platfform Cynnydd) fel sail i sgwrs reolaidd am gynnydd a chamau nesaf.<br><br>**4. Cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhieni**<br>Paratowch gwestiynau a nodiadau cyn nosweithiau rhieni er mwyn trafod cynnydd yn fanwl gyda'r athro ac i ddeall y camau nesaf.<br>**5. Annog hunanasesu gartref**<br>Holwch eich plentyn sut maen nhw'n meddwl y gwnaethon nhw mewn tasg, beth aeth yn dda, a beth gallen nhw ei wella.<br><br>**6. Cefnogi sgiliau asesu cyfoedion**<br>Os yw eich plentyn yn adolygu gwaith ffrind neu dderbyn adborth ganddo, trafodwch sut mae adborth adeiladol yn gweithio a sut gall helpu cynnydd.<br><br>**7. Rhannu llwyddiannau y tu allan i'r ysgol**<br>Anfon gwybodaeth am gyflawniadau allgyrsiol (e.e. chwaraeon, cerddoriaeth, sgiliau newydd) i'r ysgol fel rhan o'r darlun cynnydd cyffredinol. |

| | |
|---|---|
| | **8. Cefnogi presenoldeb a phrydlondeb**<br>Sicrhewch fod eich plentyn yn mynychu'n rheolaidd ac yn brydlon, gan fod presenoldeb cyson yn sail i olrhain cynnydd yn gywir.<br>**https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-10/improving-school-attendance-guidance_0.pdf**<br><br>**9. Cymryd rhan mewn arolygon neu holiaduron ysgol**<br>Cwblhewch holiaduron ynghylch cynnydd neu gefnogaeth, fel bod adborth rhieni'n rhan o'r broses o gynllunio a gwella. |